

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.21 Beth mae Canolfannau

Gwirfoddoli yn ei wneud yng Nghymru?



Cyflwyniad

Mae gwirfoddoli yn weithgaredd:

- a wneir o'ch gwirfodd, drwy ddewis;
- a wneir er lles cyhoeddus/cymunedol
- na wneir er elw ariannol.

Nid yw llawer o bobl sy'n wirfoddolwyr yn ystyried eu hunain felly. Efallai eu bod yn meddwl eu bod yn 'gwneud cymwynas'; yn bod yn 'gymydog da' neu'n cyflawni rôl megis ymddiriedolwr elusen neu lywodraethwr ysgol.

Pam mae gwirfoddoli yn bwysig

Yn ôl ['Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2016'](#) a gyhoeddir gan WCVA, mae tua 938,000 o bobl yn gwirfoddoli neu'n helpu mewn gweithgareddau gan fudiadau trydydd sector mewn blwyddyn ac mae tua 277,300 o rolau llywodraethu mewn mudiadau trydydd sector.

Mae gwirfoddoli yn rhoi buddion i bob gwirfoddolwr unigol, i fudiadau a grwpiau maent yn gwirfoddoli ynddynt, ac i gymunedau yn ehangach.

I'r unigolyn, y buddion mwyaf cyffredin yw mwynhau gweithgaredd â phwrpas, ennill profiad a sgiliau, datblygiad personol gan gynnwys meithrin hyder a hunanbarch, a datblygu perthnasau newydd a phositif ag eraill.

I'r mudiad (y mae rhai'n cael eu rhedeg yn llwyr gan wirfoddolwyr), mae gwirfoddolwyr yn rhoi gwerth ychwanegol drwy eu rhinweddau personol, y sgiliau maent yn eu defnyddio a'r amser maent yn ei roi.

Mae gwirfoddoli yn bwysig i gymunedau daearyddol a chymunedau buddiant gan ei fod yn meithrin cyfalaf cymdeithasol yn y ffyrdd canlynol: datblygu darpariaeth gwasanaeth lleol; cynyddu lles cymdeithasol; cyfranogi democrataidd; cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol.

Mae pobl yn dechrau gwirfoddoli drwy ysgolion, cyrff crefyddol a chyswllt uniongyrchol â mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ond mae gan Ganolfannau Gwirfoddoli rôl hefyd, ac i rai pobl, maent yn ffynhonnell allweddol o arweiniad a chymorth.

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn cael effaith ar wirfoddoli nid yn unig drwy eu gwasanaethau broceriaeth ond hefyd drwy godi ymwybyddiaeth o wirfoddoli, hyrwyddo gwirfoddoli, datblygu cyfleoedd a gweithio gyda grwpiau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr i wella eu harferion.

Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn ei wneud

Mae yna Ganolfan Wirfoddoli ym mhob sir yng Nghymru sy'n darparu cymorth ar lefel leol ar gyfer gwirfoddoli, gwirfoddolwyr unigol a mudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Mae ganddynt chwe phrif swyddogaeth:

Hyrwyddo a dathlu gwirfoddoli

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- ennyn ac yn annog diddordeb lleol mewn gwirfoddoli a gweithgaredd cymunedol, gan gynnwys drwy ddiwyddiadau ac ymgyrchoedd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- dathlu gwirfoddolwyr a gwirfoddoli, er enghraifft, drwy gymryd rhan yn [Wythnos Gwirfoddolwyr](#) bob blwyddyn.
- rheoli ac yn hyrwyddo brand Cymru ar gyfer gwirfoddoli: [Gwirfoddoli Cymru](#).

Datblygu arfer da

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- hyrwyddo arfer da wrth weithio gyda gwirfoddolwyr i bob mudiad sy'n cynnwys gwirfoddolwyr.
- trefnu hyfforddiant ac achrediad ar gyfer darpar wirfoddolwyr, gwirfoddolwyr, rheolwyr gwirfoddolwyr a'r seilwaith gwirfoddoli.
- hyrwyddo cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr i gyfranogi mewn dysgu a chefnogi cymheiriaid.
- hyrwyddo'r nod ansawdd [Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru](#), ac yn helpu i ddarparu'r nod.

Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- gweithio mewn partneriaeth agos gyda mudiadau yn y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd, i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli lleol.
- deall y potensial sydd gan gymunedau lleol i'w gynnig ac yn gweithio gyda nhw i wireddu'r potensial hwn drwy wirfoddoli.
- yn hyrwyddo gwirfoddoli cyffredinol ac anffurfiol yn y gymuned, yn ogystal ag annog ystod eang o rolau gwirfoddoli dynodedig mewn mudiadau
- ystyried lles grwpiau penodol sy'n wynebu rhwystrau rhag gwirfoddoli wrth ddatblygu cyfleoedd.

Polisi ac ymgyrchu

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- canfod cynigion neu ddeddfwriaethau a allai effeithio ar wirfoddoli, ac yn ymateb iddynt.
- arwain ymgyrchoedd ar faterion sy'n effeithio ar wirfoddolwyr neu wirfoddoli, a/neu'n cyfranogi ynddynt.
- ymgyrchu'n rhagweithiol dros well werthfawrogiad a dealltwriaeth o wirfoddoli a hinsawdd sy'n fwyfwy cyfeillgar i wirfoddolwyr.
- cael eu cynrychioli ar [Rwydwaith Gwirfoddoli Cymru](#), llais cenedlaethol i ddylanwadu ar bolisiau ac arferion ym maes gwirfoddoli.

Datblygiad strategol gwirfoddoli

Fel yr arbenigwyr lleol ar wirfoddoli, mae Canolfannau Gwirfoddoli yn llywio meddylfryd a chynlluniau strategol ar lefel ranbarthol a lleol drwy Rwydwaith Gweithredol y Gwasanaeth Gwirfoddoli ac mewn ffyrdd eraill.

Broceriaeth

Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn:

- rhoi cymorth a chyngor i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ac yn eu paru â chyfleoedd lleol priodol. Darperir y gwasanaeth broceriaeth i unrhyw un sydd am gael cymorth i ddod o hyd i gyfle gwirfoddoli addas, gan gynnwys pobl ag anghenion cymorth ychwanegol.
- dal gwybodaeth ar ystod gynhwysfawr o gyfleoedd a gall darpar wirfoddolwyr edrych ar www.gwirfoddolicymru.net i ddod o hyd i waith gwirfoddol neu eu Canolfan Wirfoddoli leol. Mae Canolfannau Gwirfoddoli yn diweddararu'r data ar y wefan hon.
- deall bod gan lawer o ddarpar wirfoddolwyr syniad clir o'r hyn maent am ei wneud ac ym mha fudiad maent am ei wneud. Nid oes ar bobl o'r fath (y mwyafrif o wirfoddolwyr) angen gwasanaethau broceriaeth Canolfan Wirfoddoli. Bydd pob gwirfoddolwr, fodd bynnag, yn elwa'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o swyddogaethau craidd eraill y Canolfannau Gwirfoddoli sy'n ceisio gwella a hwyluso gwirfoddoli yng Nghymru.

Ar ben y swyddogaethau craidd: prosiectau a ariennir

Yn ogystal â'r swyddogaethau craidd hyn, mae Canolfannau Gwirfoddoli yn cael cyllid, o bryd i'w gilydd, i gynnal prosiectau ychwanegol, sy'n aml wedi'u cyfyngu o ran amser, i ddarparu gwaddol dysgu, arfer da a buddion eraill i wirfoddoli. Weithiau mae'r rhain ar waith ledled Cymru ac weithiau mewn ardaloedd llai. Dyma rai enghreifftiau blaenorol:

- GwirVol (gyda Gwirfoddolwyr y Mileniwm), ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc, a ariennir gan Lywodraeth Cymru,
- Prosiect Gwirfoddoli yng Nghymru a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr, yn bennaf ar gyfer y di-waith a phobl ag anghenion cymorth uwch

- Rhaglen Wirfoddoli'r Adran Waith a Phensiynau i'r rheini sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, wedi'i hariannu gan Lywodraeth y DU

Gwybodaeth Bellach

Mae'r cyswllt ar gyfer Canolfannau Gwirfoddoli ar gael yn y daflen wybodaeth gan WCVA/CGSau, 4.1 [Meddwl am wirfoddoli](#)

Mae manylion cyswllt y Canolfannau Gwirfoddoli ar y wefan www.gwirfoddolicymru.net sy'n cynnwys tua 6,000 o gyfleoedd gwirfoddoli.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddarau: 26/09/2016



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk